



## Colegau arbenigol annibynnol

Cwestiynau hunanfyfyrto i gefnogi dysgu proffesiynol mewn colegau arbenigol annibynnol

- A oes gan y coleg gyfleoedd cynlluniedig, rheolaidd ar gyfer dysgu proffesiynol?
- Sut mae'r coleg yn penderfynu ar ei flaenoriaethau ar gyfer dysgu proffesiynol?
- I ba raddau y mae dysgu proffesiynol yn mynd i'r afael ag anghenion staff sy'n gweithio mewn lleoliad addysg?
- Pwy sy'n gyfrifol am gynllunio ac arwain sesiynau dysgu proffesiynol?
- A yw staff yn cael cyfle i rannu arfer dda yn y coleg neu arsylwi staff sy'n gweithio mewn lleoliadau tebyg eraill?
- Pa mor dda mae dysgu proffesiynol yn helpu staff i ddatblygu eu dealltwriaeth o anghenion dysgu ychwanegol eu dysgwyr?
- I ba raddau y mae cyfleoedd dysgu proffesiynol yn cynnig cymorth penodol i diwtoriaid a staff cymorth i wella ansawdd eu rolau addysgu?
- Sut mae dysgu proffesiynol yn cysylltu â nodau datblygiad proffesiynol tiwtoriaid a staff cymorth?
- Sut mae dysgu proffesiynol yn cynorthwyo'r coleg i gyrraedd ei nodau gwella?
- Sut mae arweinwyr yn gwerthuso effeithiolrwydd gweithgareddau dysgu proffesiynol?